| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Pensiynau |
| **Dyddiad:** | 26/06/2023 |
| **Teitl:** | FFACTORAU COST STRAEN YMDDEOLIAD CYNNAR Y GRONFA BENSIWN |
| **Awdur:** | Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau |
| **Pwrpas:** | Derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor i ddefnyddio'r ffactorau newydd |
| **Argymhelliad:** | Cymeradwyo defnyddio'r ffactorau newydd |

## 1. Cyflwyniad

Pan fydd gweithiwr yn gadael ar sail ddiswyddiad/effeithlonrwydd busnes ac yn 55 oed a throsodd (57 oed a hŷn o 6/4/2028), mae gan yr aelod hawl i gael taliad ar unwaith o'i fuddion pensiwn heb eu lleihau.

O ganlyniad i'r buddion hyn cael eu talu'n gynharach na'r oedran pensiwn arferol, mae cost straen ymddeoliad cynnar yn daladwy gan y cyflogwr i'r gronfa bensiwn.

Mae cyfrifiad y gost yn seiliedig ar:

- Oedran yr aelod
- Hyd aelodaeth yn y cynllun
- Tâl
- Hyd yr amser hyd at ei Oedran Pensiwn Arferol, a
- Ffactorau a gynhyrchwyd gan actiwari'r Gronfa.

Yn dilyn cwblhau proses prisiad, mae actiwari'r Gronfa wedi bod yn adolygu'r ffactorau cost straen ymddeoliad cynnar a ddefnyddir. Gweler yr atodiad am yr adroddiad llawn.

## 2. Ffactorau newydd

Mae Hymans yn argymell bod ffactorau cyfredol y Gronfa yn cael eu disodli gan y rhai a ddangosir isod:

| Years to Funded Retirement Date | Early Retirement Reduction | |
|---|---|---|
| | Existing Factors | Proposed Factors |
| 0 (or past FRD already) | 0.00% | 0.00% |
| 1 | 4.35% | 4.34% |
| 2 | 8.38% | 8.42% |
| 3 | 12.13% | 12.67% |
| 4 | 15.61% | 16.61% |
| 5 | 18.82% | 20.27% |
| 6 | 21.82% | 23.66% |
| 7 | 24.60% | 26.80% |
| 8 | 26.67% | 29.72% |
| 9 | 28.57% | 32.42% |
| 10 | 30.33% | 34.92% |
| 11 | 31.96% | 37.26% |
| 12 | 33.49% | 39.43% |
| 13 | 34.94% | 41.02% |
| 14 | 36.32% | 42.50% |
| 15 | 37.64% | 43.89% |
| 16 | 38.91% | 45.21% |
| 17 | 40.13% | 46.48% |

Mae’r ffactorau newydd wedi’u cymharu â’r rhai sydd ar waith ar hyn o bryd. Mae’r gymhariaeth yn dangos bod y ffactorau presennol yn tan ddatgan cost straen yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, ac felly **bydd mabwysiadu’r ffactorau newydd yn gyffredinol yn arwain at gostau straen uwch sy’n ofynnol gan gyflogwyr.**

## 3. Gweithredu’r ffactorau newydd

Derbyniwyd y ffactorau newydd diwedd mis Ebrill 2023. Er mwyn diogelu’r gronfa, roeddem yn awyddus i weithredu’r ffactorau cyn gynted â phosibl. Gwnaed cais ym Mai 2023 i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau i weithredu’r ffactorau hyn ar unwaith cyn y gellir mabwysiadu’r ffactorau newydd yn ffurfiol yn y Pwyllgor Pensiynau ar 26 Mehefin 2023.

## 4. Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried a chymeradwyo'r costau straen a gynigir gan Hymans Robertson, yn y tabl cryno uchod ac y manylir arno yn yr Atodiad, i'w defnyddio ar gyfer cyfrifo costau straen wrth symud ymlaen.